



## Datganiad Disgwyliad Cafcass Cymru

# Canolfannau Cyswllt Plant dan Oruchwyliaeth

Mae canolfannau cyswllt plant dan oruchwyliaeth yn amgylcheddau sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n cynnig lleoedd diogel, cyfeillgar a niwtral i blant dreulio amser gyda rhieni neu bobl eraill sy'n bwysig iddynt. Maent yn cefnogi rhieni i'w helpu i flaenoriaethu anghenion eu plant ar ôl gwahanu fel y gellir dod o hyd i atebion hirdymor i gadw plant mewn cysylltiad â rhieni a theulu ehangach lle mae'n ddiogel gwneud hynny.

Gwneir atgyfeiriadau i ganolfannau cyswllt dan oruchwyliaeth gan Cafcass Cymru lle mae angen darparu cyswllt mewn amgylchedd diogel ac i helpu i asesu a yw cyswllt parhaus er lles gorau'r plentyn. Mae canolfannau cyswllt yn opsiwn tymor byr cyn ystyried a all trefniadau barhau y tu allan i'r ganolfan gyswllt a sut.

### **SYLWER:**

lle nad oes cyswllt risg wedi'i nodi, gellir cyfeirio i ganolfannau cyswllt â chymorth:

### **Datganiad Disgwyliad Cafcass Cymru – Canolfannau Cyswllt Plant â Chymorth**

Bydd Cafcass Cymru yn atgyfeirio i ganolfan gyswllt plant dan oruchwyliaeth ar gyfer cyswllt wyneb yn wyneb neu o bell ac yn ariannu'r cyswllt hwn lle:

- Cafwyd gorchymyn llys mewn Gwrandawriad Cyntaf Penodiad Datrys Anghydfod (FHDR) ar ôl ymgynghori â'r Cynghorydd Llys Teulu (FCA) neu Weithiwr Cymdeithasol Llys Teulu (FCSW) ar ddyletswydd llys a'i gytuno gan y ddau barti.

neu

- lle mae'n rhan o argymhelliad adroddiad llys FCA neu FCSW a/neu lle mae Cafcass Cymru yn ymwneud yn weithredol ac yn barhaus â'r achos.

Ar wahân i hyn, mae angen i rieni, partïon a/neu gynrychiolwyr cyfreithiol gyflwyno eu hatgyfeiriad eu hunain yn uniongyrchol i ganolfan gyswllt ac ysgwyddo unrhyw oblygiadau cyllido.

Dylai'r Rheolwr Ymarfer ardal sydd ar ddyletswydd herio unrhyw atgyfeiriad cyswllt a wneir gan y llys heb ymgynghori â Cafcass Cymru.

Dylid gwneud atgyfeiriadau cyswllt dan oruchwyliaeth o bell, yn unig os cânt eu hasesu a'u hystyried yn addas ar gyfer cyswllt o bell dan oruchwyliaeth gan FCA/FCSW. Rhaid i'r ymarferydd gynnal trafodaethau gyda'r ddau barti a'r llys (lle bo hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y cyfyngiadau i'r gwasanaeth sydd i'w gynnig, trafod unrhyw faterion diogelu posibl a rhoi adborth clir i bawb os nad ydynt o'r farn bod cyswllt o bell yn ddiogel neu'n briodol.

### **Sawl sesiwn?**

- Cyfanswm o 6 sesiwn (1 awr) yw'r uchafswm fesul atgyfeiriad.
- Gall fod hyblygrwydd o ran hyd y sesiynau cyn belled nad yw cyfanswm yr oriau fesul atgyfeiriad yn fwy na 6. Er enghraifft, efallai y bydd angen cynnal sesiynau 2 awr yn enwedig lle mae aelod o'r teulu yn byw gryn bellter i ffwrdd. Felly, y nifer uchaf o sesiynau ar gyfer yr atgyfeiriad hwn fyddai 3.



## Atgyfeiriadau i Ganolfannau Cyswllt Plant dan Oruchwyliaeth

- Mae canolfannau'n gyfrifol am asesu a yw'r parti a gyfeiriwyd yn addas ar gyfer cyswllt dan oruchwyliaeth ac nad yw hynny'n cynrychioli risg i'r plentyn, y rhiant neu weithiwr (gweithwyr) canolfan gyswllt.
- Mae canolfannau'n gyfrifol am hysbysu'r Tîm Gwasanaethau a Gomisiynir cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr atgyfeiriad os ydynt yn bwriadu derbyn yr atgyfeiriad.
- Mae'n ofynnol i ganolfannau gwblhau Cofnod Cyswllt a Arsylywyd Cafcass Cymru ar ôl pob sesiwn; dylid anfon y Cofnod Cyswllt a Arsylywyd terfynol cyn pen 5 diwrnod ar ôl i'r cyswllt ddod i ben.
- Gall yr FCA / FCSW ymweld â phartïon yn y lleoliad (neu leoliad arall) ar gyfer ymweliadau arsyllwadol achlysurol pan ystyrir eu bod er lles gorau'r plentyn / plant a lle glynwyd at unrhyw ofynion iechyd a diogelwch. Fel arall, lle bo hynny'n bosibl, gellir arsylwi trwy ddulliau o bell.
- Bydd canolfannau'n sicrhau mai dim ond partïon a nodwyd ar ffurflen atgyfeirio Cafcass Cymru sy'n mynychu pob sesiwn, fodd bynnag, gall gynnwys dehonglwyr lle nodwyd hyn fel angen.
- Mae canolfannau'n gyfrifol am hysbysu'r heddlu / gwasanaethau cymdeithasol yn uniongyrchol am unrhyw bryderon amddiffyn / diogelu plant a hynny ar unwaith.
- Mae canolfannau'n gyfrifol am adrodd am unrhyw ymddygiad treisgar, bygythiol, sarhaus neu wrthwahaniaethol, sy'n ymwneud ag oedolion neu blant i Cafcass Cymru, a hynny o fewn un diwrnod gwaith ac yn ysgrifenedig yn dilyn hynny.

Mae pob canolfan gyswllt a ddefnyddir gan Cafcass Cymru yn destun achrediad gan Gymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt Plant (NACCC).

## Sut mae atgyfeiriad Cafcass Cymru yn cael ei symud ymlaen?

- Rhaid i'r FCA / FCSW gwblhau cofnod achos atgyfeirio gwasanaeth cyswllt ar IRIS.
- Fydd atgyfeiriadau yn cael eu dyrannu gan y tîm gwasanaethau a gomisiynir i ddarparwr gwasanaethau cyswllt dan oruchwyliaeth a gymeradwywyd gan Cafcass Cymru yn yr ardal y mae'r plentyn yn byw ynddi.
- **Rhaid** i bob atgyfeiriad:
  - Fod wedi ei gefnogi gan asesiad risg cadarn yn enwedig lle mae materion diogelu cyfredol a /neu yn y gorffennol — honedig neu brofedig
  - Yn dilyn y canllawiau ar hyd a nifer y sesiynau
  - Nodwch pa un yw'r ganolfan a ffefrir ar gyfer cyswllt dan oruchwyliaeth.
- Bydd Tîm Gwasanaethau a Gomisiynir Cafcass Cymru yn trefnu i'r atgyfeiriad gael ei anfon i'r ganolfan gyswllt trwy porth diogel a bydd yn cysylltu â defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cadarnhau bod yr atgyfeiriad wedi'i wneud ac i ddarparu manylion y ganolfan gyswllt lle cawsant eu cyfeirio.
- Bydd y canolfannau cyswllt plant yn hysbysu'r Tîm Gwasanaethau a Gomisiynir i dderbyn yr atgyfeiriad cyn pen 10 diwrnod gwaith ar ôl derbyn atgyfeiriad a phan fydd cyswllt wedi dod i ben er mwyn cwrdd â'r gofynion monitro angenrheidiol.
- Bydd y Tîm Gwasanaethau a Gomisiynir yn hysbysu'r llys ac yn cau'r atgyfeiriad os bydd rhieni'n methu ag ymgysylltu â'r ganolfan gyswllt, neu os yw'r ganolfan wedi gwneud 3 ymgais i drefnu cyfarfod cyn-cysylltu mewn cyfnod o 4 wythnos.
- Os caiff sesiwn gyswllt ei chanslo ar fwy nag un achlysur, bydd cyswllt yn cael ei atal a bydd y llys a'r FCA yn cael gwybod am yr anawsterau y mae'r ganolfan gyswllt yn eu hwynebu.

## Manylion Cyswllt

Ffôn — 0300 062 8855

E-bost — [CafcassCymru.gwasagomisiynwyd@llyw.cymru](mailto:CafcassCymru.gwasagomisiynwyd@llyw.cymru)

